# Cynllun Strategol

## 2023-2028




Coleg Sir Benfro
Pembrokeshire College

01437 753 000
info@pembrokeshire.ac.uk
www.pembrokeshire.ac.uk




| | |
|---|---|
| Croeso | 03 |
| Coleg Sir Benfro | 04 |
| Gweledigaeth | 04 |
| Cenhadaeth | 04 |
| Diwylliant a Gwerthoedd | 05 |
| Nodau Strategol | 06 |
| Cyflawni'r Nodau | 14 |

# Croeso

## Pennaeth a Phrif Weithredwr



Dr Barry Walters

## Cadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth



Iwan Thomas

Mae Cynllun Strategol Coleg Sir Benfro 2023-2028 yn gosod gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer ein datblygiad dros y pum mlynedd nesaf. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf i sicrhau ein bod yn paratoi dysgwyr yn y ffordd orau ar gyfer byd gwaith neu ar gyfer lefelau astudio uwch.

Bydd cyfnod y Cynllun Strategol hwn 2023-2028 yn gyfnod o newid, her a chyfleoedd, gydag effeithiau disgwyliedig ac annisgwyl y pandemig coronafeirws byd-eang, Brexit a phwysau ariannol i gyd yn parhau i gael effaith ddofn ar fywydau pobl a chymdeithas yn gyffredinol. Mae Sir Benfro'n wynebu heriau demograffig sylweddol a phrinder sgiliau ar adeg pan fydd cyfleoedd yn codi trwy gais llwyddiannus y Porthladd Rhydd Celtaidd a'r datblygiadau Ynni Adnewyddadwy yn Aberdaugleddau. Mae'r Coleg mewn sefyllfa allweddol i chwarae rhan ganolog wrth gwrdd â'r heriau a'r cyfleoedd a fydd yn codi.

Mae'r Coleg a'i enw da wedi tyfu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol dros gyfnod y Cynllun Strategol blaenorol fel y gwelir yn y cynnydd mewn cofrestriadau llawn-amser a phrentisiaethau. Mae'r Coleg bellach yn arwain Consortiwm Prentisiaethau a Thwf Swyddi Cymru gyda chontract o fwy na £27 miliwn.

Mae gennym staff cymwys iawn sydd â phrofiad a gwybodaeth am y diwydiant sy'n canolbwyntio ar gefnogi a sicrhau bod ein dysgwyr yn cael profiad o ansawdd uchel.

Rydym yn cyflwyno safonau uchel o addysg a hyfforddiant fel y dangosir gan y dyfarndiadau 'Da' a 'Rhagorol' yn ein harolygiadau DSW (Dysgu Seiliedig ar Waith) ac AB (Addysg Bellach) diweddaraf gan Estyn ac mae canlyniadau yn gyson uwch na'r cymaryddion cenedlaethol. Rydym yn gryf yn ariannol, sy'n ein galluogi i fuddsoddi mewn cyfleusterau ac adnoddau rhagorol, ar ôl cwblhau'r gwaith o adeiladu Canolfan Beirianneg ac Ardal Atriwm newydd gwerth £6 miliwn yn 2021/22 gyda chymorth cyllid Rhaglen Band B Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi adeiladu Canolfan Ddysgu yn Fferm Folly ac Academi Sgiliau Byw'n Annibynnol yn Llwynhelyg ar Faes Sioe Amaethyddol Sir Benfro ar gost gyfunol o £3.5 miliwn. Rydym ar hyn o bryd yn datblygu cynlluniau newydd i wella amgylchedd y dysgwyr gyda buddsoddiad ychwanegol mewn adnewyddu a chyfleusterau newydd dros gyfnod y Cynllun Strategol hwn wrth geisio cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

Fel Coleg rydym wedi ymrwymo i agenda Llywodraeth Cymru o weithio ar y cyd â'n partneriaid, yn enwedig y Cyngor Sir ac Ysgolion Sir Benfro, i sicrhau bod dysgwyr y sir yn cael mynediad i'r ystod ehangaf o gyfleoedd academaidd a galwedigaethol.

Crëwyd y cynllun strategol hwn yn dilyn ymgynghoriad helaeth ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys cyflogwyr, staff, dysgwyr, Fforwm Ymgynghorol Coleg Sir Benfro a Chorff Llywodraethu'r Coleg. Edrychwn ymlaen at ei roi ar waith.

Dr Barry Walters
Pennaeth a Phrif Weithredwr

Iwan Thomas
Cadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth



# Coleg Sir Benfro

Mae Coleg Sir Benfro yn ddarparwr addysg bellach, addysg uwch a hyfforddiant seiliedig ar waith deinamig ac o ansawdd uchel gyda bron i 2,000 o ddysgwyr llawn-amser a 12,000 o ddysgwyr rhan-amser, prentisiaid a hyfforddeion yn cofrestru bob blwyddyn. Mae'r Coleg yn cyflogi dros 530 o staff dawnus ac ymroddedig sydd â chymwysterau proffesiynol, yn gefnogol ac yn gofalu am eu dysgwyr. Mae'r Coleg yn cynnig darpariaeth alwedigaethol gynhwysfawr sy'n cwmpasu holl feysydd y cwricwlwm gan gynnwys y sectorau blaenoriaeth Iechyd a Gofal, Peirianneg, Ynni, Adeiladu, Technoleg Bwyd, Gwyddorau Bywyd, Twristiaeth a Lletygarwch. Ochr yn ochr â hyn, dilynir darpariaeth academaidd o 27 Lefel-A gan dros 350 o ddysgwyr lefel tri.

Mae'r Coleg yn arwain Consortiwm Prentisiaethau Seiliedig ar Waith sy'n darparu contract gwerth £27 miliwn ar gyfer Rhaglenni Hyfforddiant Prentisiaethau a Thwf Swyddi Cymru+ ledled De Cymru. O'r herwydd, mae'r Coleg yn gweithio gyda dros 3,500 o gyflogwyr i helpu i gyflwyno unigolion sy'n alwedigaethol gymwys i'r gweithlu.

# Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth o'r hyn yr hoffem i'r Coleg fod yn adnabyddus amdano sy'n pennu ein nodau a'n blaenoriaethau strategol. Gweledigaeth Coleg Sir Benfro yw:

***"Trawsnewid bywydau trwy ddysgu."***

# Ein Gweledigaeth

Mae Coleg Sir Benfro wedi ymrwymo i greu cyfleoedd a chyfoethogi bywydau trwy ddarparu cyfleoedd dysgu rhagorol. Cenhadaeth y Coleg yw:

***"Grymuso unigolion, codi dyhaeadau a datblygu gweithlu yfory."***

# Diwylliant a Gwerthoedd

Mae ein staff wedi nodi'r gwerthoedd y credwn y dylent lywio'r Coleg drwy gyfnod y cynllun strategol hwn. Mae'r gwerthoedd hyn, sy'n diffinio ethos, diwylliant ac ymddygiad y Coleg, ein staff a'i ddysgwyr wedi'u crynhoi gan yr acronym 'PEOPLE' sy'n cynrychioli'r canlynol:

P E O

Positifrwydd: credwn mewn bod yn gadarnhaol ac ymatebol, gan annog pawb i fabwysiadu ymagwedd o'r fath ym mhopeth a wnânt;

Cydraddoldeb: rydym yn gwerthfawrogi cydraddoldeb ac yn herio gormes. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd cynhwysol a diogel sy'n parchu amrywiaeth ein staff a'n dysgwyr. Rydym yn cefnogi ac yn hyrwyddo strategaethau gwrth-wahaniaethu ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig;

Cyfle: credwn mewn gwneud pob cyfle posib o ran addysg i gymuned ein Coleg;

P L E

Potensial: ein nod nid yn unig yw cyflawni potensial ond mynd y tu hwnt i bob disgwyl;

Gwrando: rydym yn gwrando ar ddysgwyr, staff, cyflogwyr ac aelodau o'r gymuned er mwyn sicrhau diwylliant agored a chynhwysol;

Rhagoriaeth: credwn mewn anelu at ragoriaeth ac ymdrechwn i fod yn Ganolfan Rhagoriaeth Dysgu ac Addysgu.

# Nodau Strategol

## Cyflawni'r Nodau

O fewn y cyfnod pum mlynedd nesaf mae Coleg Sir Benfro yn bwriadu datblygu ei bortffolio cwricwlwm, wedi'i arwain gan y saith nod strategol allweddol a ganlyn, a ystyrir fel datganiadau eang o fwriad sy'n dal gweledigaeth, gwerthoedd ac ethos y Coleg dros y cyfnod o bum mlynedd.

Mae ein Cynllun Strategol yn cydnabod papur "Gweledigaeth ar gyfer Addysg Bellach" Y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru. Mae ein nodau hefyd yn ystyried rhai'r Fargen Ddinesig ar gyfer Rhanbarth Bae Abertawe, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau, a Chynllun Cyflogaeth a Sgiliau'r Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol.

Mae'r Nodau Strategol hefyd yn cyd-fynd yn llwyr ag amcanion llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, sef: lleihau anghydraddoldebau; cefnogi datgarboneiddio; galluogi cymunedau diogel, cysylltiedig a dyfeisgar; a chefnogi twf, swyddi a ffyniant a thrawsnewid i economi wyrddach fwy cynaliadwy. Mae'r nodau a nodir yn y nodau strategol canlynol wedi'u tanategu gan gynllun gweithredol y Coleg. Mae pob cyfadran ac adran yn nodi camau gweithredu sy'n galluogi nodau'r Cynllun Strategol i gael eu cyflawni. Mae rhai nodau sydd wedi'u halinio'n agos, fodd bynnag credwn ei bod yn bwysig eu cynnwys yng nghyd-destun y nod strategol penodol.

O fewn cyfnod y cynllun strategol hwn mae'r nodau sy'n sail i Nodau Strategol y Coleg fel a ganlyn:



# 1. Datblygu unigolion hynod fedrus, creadigol a llwyddiannus

1.1 Gosod y dysgwyr wrth galon popeth a wnawn a sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

1.2 Sicrhau bod ein cwricwlwm yn parhau i godi dyheadau dysgwyr ac yn galluogi datblygiad dysgu annibynnol a sgiliau gwaith tîm.

1.3 Gwella'r rhaglen diwtorial a chymorth bugeiliol i sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y priodoleddau, y sgiliau a'r gwytnwch angenrheidiol i'w helpu i gyflawni eu rhaglen a chefnogi eu dilyniant.

1.4 Parhau i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n hanfodol ar gyfer cyfleoedd bywyd dysgwyr a darparu dysgwyr â sgiliau digidol[1] penodol i'r diwydiant ar gyfer byd technolegol sy'n newid yn barhaus.

1.5 Mesur effaith y strategaeth Iechyd a Lles a gweithio gydag asiantaethau perthnasol i sicrhau bod pob aelod o gymuned y dysgwyr yn cael yr holl gefnogaeth angenrheidiol i lwyddo.

1.6 Ymgorffori ymhellach themâu trawsbynciol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar draws yr holl raglenni dysgu.

1.7 Parhau i wreiddio cystadlaethau yn y cwricwlwm i godi safonau a pharatoi dysgwyr yn well ar gyfer byd gwaith.

1.8 Cryfhau'r rhaglen gyfoethogi allgyrsiol gynhwysfawr sy'n darparu ystod o gyfleoedd i ddysgwyr sy'n canolbwyntio ar chwaraeon, diwylliant a lles.

1.9 Codi dyheadau dilyniant dysgwyr trwy fanteisio, er enghraifft, ar ddatblygiadau rhwydwaith Seren[2]

1.10. Parhau i hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o ddysgu, ymddygiad a pharch trwy weithredu datblygiad ystafell ddosbarth cynhwysol ASPIRE[3], gan arwain at ddysgwyr medrus iawn, sy'n barod i gystadlu a gweithio mewn marchnad gyflogaeth fyd-eang sy'n esblygu.

[1] Mae "digidol" yn cwmpasu technoleg i gefnogi addysgu a dysgu a systemau cymorth busnes a'r cysylltedd a'r seilwaith sylfaenol i alluogi'r rhain i fod yn effeithiol.

[2] Mae Seren yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n ymroddedig i helpu dysgwyr disgleiriaf Cymru a addysgir gan y wladwriaeth i gyflawni eu potensial academaidd llawn a chefnogi eu llwybr addysg i brifysgolion blaenllaw yng Nghymru, y DU a thramor.

[3] ASPIRE yw adran Datblygiad Sefydliadol y Coleg sy'n canolbwyntio ar Ddysgu, Addysgu, Ansawdd a Datblygiad Proffesiynol Parhaus.



# Nodau Strategol *parhad*

## 2. Darparu dysgu ac addysgu rhagorol, ysbrydoledig a pherthnasol gan alluogi dysgwyr Sir Benfro i symud ymlaen i lefelau uwch o ddysgu neu gyflogaeth

2.1 Darparu rhaglenni a gwasanaethau dysgu o safon sy'n cefnogi dysgwyr yn effeithiol ac sy'n cael eu cydnabod yn rhagorol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

2.2 Adolygu'r cwricwlwm i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r sgiliau a'r sylfaen wybodaeth briodol i allu symud ymlaen i yrfaoedd yn y sectorau allweddol presennol er enghraifft, peirianneg a thwristiaeth a'r sectorau sy'n dod i'r amlwg fel bwyd ac ynni adnewyddadwy.

2.3 Ymgorffori'r cwricwlwm digidol ar draws pob sector galwedigaethol ac academaidd, gan gydnabod effaith y pandemig ar sut rydym yn rhyngweithio ac yn dysgu.

2.4 Adeiladu ar weithrediad presennol y consortiwm Dysgu Seiliedig ar Waith i sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y dyfodol ar draws De a Gorllewin Cymru gan gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o 125,000 o brentisiaethau erbyn 2026/27.

2.5 Bod yn goleg cwbl gynhwysol ac amrywiol, gan hyrwyddo tegwch a pharch ar draws yr holl ymgysylltiad dysgwyr, staff a'r gymuned.

2.6 Bod yn goleg sy'n annog cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu dwyieithog mewn addysg a hyfforddiant.

2.7 Cynyddu sgiliau dysgwyr trwy wella'r cwricwlwm gyda rhaglenni Cyrchfannau sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd gan wneud defnydd llawn o gysylltiadau â busnesau lleol a'r gymuned ehangach.

2.8 Sicrhau bod dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau technegol i sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n llawn ar gyfer symud ymlaen i lefelau dysgu uwch a byd gwaith.

# 3. Gwerthfawrogi a buddsoddi yn yr holl staff

3.1 Mabwysiadu diwylliant agored a thryloyw lle mae gan yr holl staff ddyheadau uchel, morâl cadarnhaol a lle gallant dyfu a chyfrannu at eu llwyddiant eu hunain a llwyddiant y Coleg.

3.2 Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaeth hygyrch a chynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol parhaus a rhaglenni arweinyddiaeth a chynllun olyniaeth ar gyfer arweinyddiaeth y Coleg yn y dyfodol.

3.3 Parhau i sicrhau lles staff drwy amrywiaeth o weithgareddau a gwella strategaethau cymorth.

3.4 Hyrwyddo a chefnogi addysgu ysbrydoledig a dysgu gweithredol sy’n canolbwyntio ar ddefnyddio technolegau dysgu arloesol a pherthnasol, gan gofleidio strategaeth dysgu digidol y Coleg.

3.5 Sicrhau bod llais yr holl staff yn cael ei glywed a bod cyfleoedd i fod yn agored a chyfartal i bob aelod o staff.

3.6 Cefnogi staff i uwchsgilio yn eu sector diwydiant penodol, gan gynnwys ymgymryd â lleoliadau i wella eu gwybodaeth ddiwydiannol a’u sgiliau gweithredol, yn unol â thechnolegau newydd a datblygiad y cwricwlwm.

3.7 Symud ymlaen gyda dulliau ac amgylcheddau addysgu arloesol trwy gydweithio ar ddatblygu, dylunio a hyfforddi, i wella dulliau cyflwyno a mannau dysgu creadigol - ffisegol a digidol.

3.8 Gweithredu rhaglen ymddygiad cynhwysol Diwylliant y Coleg i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol sy'n rhoi boddhad er mwyn codi dyheadau dysgwyr.



# Nodau Strategol *parhad*

## 4. Cyfrannu at ranbarth ac economi'r De Orllewin trwy fuddsoddi mewn sgiliau a chymunedau

4.1 Ymgysylltu a dylanwadu ar yr agenda polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy’n cefnogi swyddi a thwf economaidd.

4.2 Ymgysylltu’n llawn â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod holl staff y Coleg yn barod ar gyfer gweithredu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

4.3 Gweithio'n briodol gyda phartneriaid Addysg Bellach ac Uwch i gryfhau'r dull rhanbarthol o ddarparu ar gyfer ein cymunedau.

4.4 Cydweithio ag Ysgolion Sir Benfro i gyflwyno darpariaeth alwedigaethol 14-16 sy'n galluogi rhaglenni astudio sy'n cefnogi llwybrau gyrfa.

4.5 Cydweithio â chyflogwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i alluogi uwchsgilio yn y gweithle.

4.6 Cydweithio â sefydliadau perthnasol eraill a/neu gyrff sectoraidd i nodi a mabwysiadu arfer gorau i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb.

4.7 Cefnogi cymunedau Sir Benfro, trwy hyrwyddo cyfleuster bywiog a hygyrch i'r gymuned a darparu addysg oedolion ac addysg gymunedol wedi'i dargedu.



# 5. Cyflawni llywodraethu a rheoli o'r radd flaenaf

5.1 Hyrwyddo diwylliant Llywodraethu a Rheoli cadarnhaol ond heriol sy'n llywio cyfeiriad strategol ein Coleg gan ganolbwyntio ar ddysgwyr y presennol a'r dyfodol.

5.2 Defnyddio ymgysylltu a chyfathrebu â'r gymuned gan gynnwys drwy Fforwm Ymgynghorol Coleg Sir Benfro i greu perchnogaeth ehangach o'r hyn a ddarparwn.

5.3 Annog a chefnogi dysgwyr i fod yn rhan allweddol o'n strwythur llywodraethu, ein proses a'n penderfyniadau er mwyn sicrhau bod y Coleg yn gyfredol ac yn flaengar.

5.4 Datblygu Strategaeth Ddigidol 2030 y Coleg ymhellach drwy gysylltu â Jisc a cholegau AB eraill yn y sector.

5.5 Adolygu aelodaeth holl Bwyllgorau a Bwrdd y Coleg yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r boblogaeth gymunedol.

5.6 Sicrhau cynaliadwyedd hirdymor drwy ddod o hyd i gyfleoedd priodol, drwy gydweithio, caffael ac uno a fyddai er lles gorau dysgwyr Sir Benfro tra'n rhoi ystyriaeth lawn i raddfa'r risg.

5.7 Gweithio gyda'r Awdurdod Lleol i sicrhau bod addysg ôl-16 yn gyson ac yn hyfyw ar draws y sir drwy, er enghraifft, ymgysylltu ag is-bwyllgor Lefel-A y Corff Llywodraethol.



# Nodau Strategol *parhad*

## 6. Darparu amgylchedd Coleg ar gyfer dysgwyr, staff a'r gymuned sy'n gynhwysol, cynaliadwy a diogel

6.1 Meithrin diwylliant o weithio’n iach a diogel lle mae dysgwyr, staff ac aelodau’r cyhoedd sy’n defnyddio’r Coleg yn ddiogel ac yn deall eu dyletswyddau.

6.2 Sicrhau bod y Coleg yn gwbl ymrwymedig i bob agwedd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant trwy, er enghraifft, hyrwyddo gwrth-hiliaeth a gweithredu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol y Coleg.

6.3 Datblygu a gwella ymhellach amgylchedd dysgu cynaliadwy ac ysbrydoledig gan alluogi aliniad â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

6.4 Sicrhau bod staff wedi’u paratoi i ddefnyddio technoleg gynhwysol sy’n galluogi datblygu dogfennau mewn amrywiaeth o fformatau fel bod y gymuned gyfan o ddysgwyr yn gallu cael mynediad at ddeunyddiau dysgu o’r fath a’u defnyddio.

6.5 Gweithio tuag at statws Di-Garbon Net erbyn 2030.

6.6 Gweithio gyda sefydliadau partner i sicrhau'r defnydd gorau o'r cyfleusterau sydd ar gael.

6.7 Datblygu ymhellach gyfleusterau chwaraeon ar gyfer cymuned dysgwyr y Coleg.

6.8 Datblygu ymhellach y ddarpariaeth cwricwlwm cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a diwylliant y Coleg yn unol â strategaeth genedlaethol ‘Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr’, gan ddarparu dilyniant a pharhad ieithyddol i ddysgwyr.

# 7. Sicrhau sefydlogrwydd ariannol hirdymor

7.1 Aros yn Goleg ariannol diogel sy'n darparu gwerth am arian tra'n adeiladu gwargedion arian parod i gefnogi buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol.

7.2 Archwilio cyfleoedd twf yn y dyfodol ac amrywio gweithgareddau darparu i ychwanegu gwerth at y gweithrediad craidd.

7.3 Sicrhau'r elw mwyaf ar fuddsoddiad mewn datblygiad cyfalaf trwy sicrhau, yn ogystal â chwrdd ag anghenion y cwricwlwm, fod gan y Coleg gyfleoedd i gynhyrchu incwm masnachol o fuddsoddiad o'r fath.

7.4 Sicrhau ffynonellau incwm amgen a chynyddu gweithgarwch masnachol er mwyn tyfu'r Coleg mewn ffyrdd sy'n alinio ein gwerthoedd a'n busnes craidd.



# Cyflawni'r Nodau

Erbyn diwedd cyfnod y Cynllun Strategol hwn, byddwn wedi cyflawni'r canlynol:

**5%**

## Cynyddu'r niferoedd

Wedi cyflawni twf o 5% yn nifer y dysgwyr (100 o ddysgwyr newydd) a chynyddu canran y dysgwyr lefel tri o'r 60% presennol i 65%.

**£25m**

## Contract DSW

Wedi darparu contract Dysgu Seiliedig ar Waith cyfwerth ag o leiaf £25 miliwn ar gyfer y consortiwm am y pum mlynedd nesaf gan gynnal seilwaith consortiwm B-wbl.

**88%**

## Cyfraddau Cyflawni

Dangos cyfraddau cyflawniad Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith yn unol â cholegau rhagorol, yn targedu 88% mewn deilliannau dysgwyr a chwblhau fframweithiau.

**›90%**

## Boddhad Dysgwyr

Dangos lefelau boddhad dysgwyr uwchlaw meincnodau'r sector gyda 90% neu uwch o ymatebion cadarnhaol ar draws pob maes.

1,000

## Lleoliadau Gwaith

Cynyddu cyfleoedd lleoliad gwaith drwy'r Biwro Cyflogaeth o'r 600 presennol i 1,000 a threblu nifer y dysgwyr sy'n cael swyddi drwy'r Biwro o'r 120 presennol i 350.

30%

## Uwchsgilio Staff

Cynyddu sgiliau staff academaidd trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus y diwydiant yn y gweithle o'r 10% presennol i 30%.

2030

## Sgiliau Digidol

Cwblhau a gweithredu Strategaeth Sgiliau Digidol 2030 ar draws y Coleg gan sicrhau bod yr holl ddysgwyr a'r holl staff yn ymgysylltu â'r technolegau.

£30m

## Datblygu

Datblygu Prif Gynllun Ystadau sy'n darparu cyfleusterau rhagorol ar gyfer darpariaeth cwricwlwm-arloesol yn y dyfodol gan sicrhau datrysiadau oddi ar y safle lle mae cyfyngiadau campws yn atal datblygiad ar y safle. Wedi ceisio cyllid i danategu'r cynllun datblygu ystadau a'r buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau bod cronfeydd wrth gefn y Coleg yn cael eu defnyddio i'w gwerth gorau.

£1.5m

## Gwarged Blynyddol

Wedi cyflawni gwarged arian gweithredol blynyddol iach o rhwng £1.2 - £1.5 miliwn.



COLEG Sir Benfro
Pembrokeshire COLLEGE

Gwybodaeth cysylltu

01437 753 000

info@pembrokeshire.ac.uk

Hwlffordd, SA61 1SZ